# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Stokes Case Management – Gorllewin Morgannwg**

**Tŷ 3 The Maltings**
**Stryd Tyndall Ddwyreiniol**
**Caerdydd**
**CF24 5EA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**16 Chwefror 2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Stokes Case Management - Gorllewin Morgannwg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Stokes Case Management Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'n nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg pobl/plant sy'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio eu gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae Stokes Case Management (SCM) yn disgrifio eu hunain fel sefydliad sydd ag 'ymagwedd greadigol a chadarnhaol'. Ei nod yw sicrhau hawliau cleientiaid a dod o hyd i ffyrdd o roi'r rheolaeth fwyaf posibl iddynt dros eu bywydau, a diwallu eu hanghenion a'u nodau datblygol. Ategwyd hyn gan wybodaeth a welwyd a chleientiaid a staff y siaradwyd â nhw. Mae SCM yn darparu gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i bob unigolyn. Mae cynrychiolwyr/perthnasau pobl sy'n derbyn ei wasanaethau yn ei ganmol gan ddefnyddio termau fel: "*rhagorol*"; "*ardderchog*"; "*gwych*"; *a* "*rhyfeddol*". Maent yn ei ddisgrifio fel sefydliad tryloyw, croesawgar, sy'n parchu safbwyntiau pobl ac yn llawn cydymdeimlad, ac yn dweud ei fod *"wir yn gofalu am bobl".* Mae staff yn mwynhau eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan SCM, a dywedodd un ohonynt *"Fel gweithiwr i Stokes, dydych chi byth ar eich pen eich hun, mae rhywun yno bob amser, ddydd neu nos!*" Fel gwasanaeth rheoli achosion, nid yw'n cyflogi staff cymorth, ond mae'n helpu gyda'r broses o'u recriwtio ac yn darparu gwasanaethau monitro, hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus ar ran eu cleientiaid. Cyflogir staff cymorth yn uniongyrchol gan y cleientiaid neu eu cynrychiolwyr, gan gynnwys cyfreithwyr, dirprwyon proffesiynol ac ymgyfreithwyr. Weithiau, mae cleientiaid yn defnyddio gwasanaethau cymorth cartref. Mae rheolwr ac unigolyn cyfrifol SCM mewn cysylltiad uniongyrchol a rheolaidd â'r cleientiaid a'u cynrychiolwyr ac maent yn deall eu hanghenion a'u dyheadau. Maent yn cyflogi rheolwyr achos sy'n cydlynu'r holl wasanaethau sydd eu hangen ar gleient, sydd yn aml yn cynnwys tîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol.

## Llesiant

Mae cleientiaid yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i sicrhau eu hawliau, dod o hyd i ffyrdd o gael y rheolaeth fwyaf posibl dros eu bywydau, a diwallu eu hanghenion a'u nodau datblygol. Rôl SCM yw asesu anghenion pob cleient, sy'n aml yn gymhleth ac yn gofyn am fewnbwn gan lawer o weithwyr proffesiynol i'w diwallu, a threfnu a chydlynu darpariaeth y gwasanaethau gofynnol. Mae iechyd corfforol a meddyliol cleientiaid, eu llesiant emosiynol a'u hannibyniaeth wrth wraidd yr hyn y mae SCM yn ei wneud, ac mae'n chwilio am ffyrdd creadigol o gyflawni nodau pob cleient. Mae'n gweithio'n agos gyda theuluoedd a chynrychiolwyr cleientiaid sy'n nodi bod ganddynt gydberthynas dda â nhw. Mae cleientiaid yn elwa ar yr asesiad cyfannol a ddarperir gan SCM a'r adroddiad y mae'n ei lunio (Asesiad Cychwynnol o Anghenion (INA)) sy'n cynnwys nodau ac argymhellion ar gyfer y 6 mis cyntaf gyda chostau, ac a ddefnyddir gan y llysoedd. Mae SCM hefyd yn trafod anghenion diwylliannol a chrefyddol unigol, yn ogystal ag anghenion ieithyddol, ar sail unigol fel rhan o asesiad y cleient. Mae'n diwallu anghenion iaith cleientiaid drwy ddarparu staff cymorth sy'n gallu cyfathrebu yn newis iaith y cleient, neu sicrhau bod cyfieithydd ar gael hefyd. Cafwyd enghraifft ddiweddar pan drefnwyd rheolwr achos sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel ei iaith gyntaf i weithio gyda chleient a oedd yn cyfathrebu drwy BSL. Mae pob aelod o staff, gan gynnwys yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr, bellach yn cael hyfforddiant BSL. Gall cleientiaid sy'n siarad Cymraeg dderbyn eu gwasanaeth gan staff sy'n siarad Cymraeg. Adolygir anghenion cleientiaid yn rheolaidd wrth iddynt newid, yn aml oherwydd gwelliant.

Gall cleientiaid sy'n cael anhawster gyda chyfathrebu ysgrifenedig elwa ar ffilm fer wedi'i hanimeiddio y mae SCM wedi'i gwneud er mwyn egluro ei wasanaethau. Cafodd ei gwylio ac roedd yn hawdd ei dilyn. Mae ganddo dair ffilm arall sy'n cael eu cynhyrchu, gan gynnwys un astudiaeth achos yr oedd cleient wedi gofyn amdani. Ystyrir bod y dull rhagweithiol, arloesol hwn yn arfer rhagorol. Mae'n ymwybodol yn barhaus o anghenion newidiol cleientiaid ac yn chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo er mwyn gwella ansawdd bywyd pob cleient.

Archwilir diddordebau cleientiaid yn yr asesiad cychwynnol gyda'r nod o wella'u llesiant. Mae'n annog cleientiaid i ddweud beth yw eu diddordebau a beth yr hoffent ei wneud, ac yna'n dod o hyd i weithgareddau ac yn cefnogi'r cleient i'w gwneud. Mae enghreifftiau'n cynnwys syrffio, sgïo, bocsio, a chychod cyflym. Cafodd hyn ei gadarnhau gan gynrychiolydd cleient a ddywedodd bod SCM yn rhagweithiol o ran awgrymu gweithgareddau a'u trefnu os yw ei mab eisiau eu gwneud. Cefnogir sawl cleient i fynychu dosbarthiadau celf a chaiff peth o'u gwaith ei fframio a'i arddangos o amgylch y swyddfa. Mae'r grŵp celf wedi cael gwaith wedi'i gomisiynu ac wedi bod ar 'The One Show'. Maent wedi trefnu eu harddangosfeydd eu hunain ac wedi gwerthu eu gwaith celf i godi arian. Enghraifft arall yw rhandir cwmni SCM y gall cleientiaid ei ddefnyddio. Mae SCM bob amser yn dod o hyd i weithgareddau newydd i'w hawgrymu i'w cleientiaid.

Amddiffynnir y cleientiaid rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu ac mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau clir i'w harwain wrth adnabod ac adrodd am gamdriniaeth bosibl, a diogelu llesiant cleientiaid. Dywedodd cynrychiolydd un o’r cleientiaid ei fod yn teimlo'n ddiogel a’i fod yn derbyn gofal da.

## Gofal a chymorth

Mae unigolion yn elwa ar becynnau gofal wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion, ac ar y ffaith bod asesiadau, adolygiadau a chynlluniau personol yn canolbwyntio arnynt. Mae SCM yn dod o hyd i ffyrdd iddynt gael y mewnbwn mwyaf posibl wrth fynegi eu dyheadau a'u canlyniadau dymunol. Maent yn gallu cyfarfod a dewis o blith nifer o staff, y maent yn dymuno iddynt ddarparu eu cymorth. Mae cynlluniau personol yn fanwl ac yn gynhwysfawr, gydag adrannau wedi'u mynegeio'n briodol ac yn hawdd dod o hyd iddynt. Mae adolygiadau misol yn cael eu cofnodi a'u dyddio.

Mae cleientiaid yn elwa ar staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sy'n cael eu cefnogi'n dda, sy'n nodi ac yn trefnu'r gofal a chymorth unigol a ddarperir iddynt er mwyn cynorthwyo'u hadsefydlu a datblygu eu medrau a'u diddordebau. Dywedodd cynrychiolydd cleient, ers i SCM ddod i gysylltiad, fod eu hanghenion yn cael eu diwallu o'r diwedd, "*ar ôl 20 mlynedd o frwydro dros bopeth*". Soniodd am y ffaith bod SCM yn "*cymryd y pwysau oddi ar ei hysgwyddau*". Dywedodd nad yw'n diwallu anghenion uniongyrchol ei mab yn unig, ond ei fod bob amser yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y 6-12 mis canlynol. "*Maen nhw'n gwneud yr hyn maen nhw'n dweud y maen nhw'n mynd i'w wneud ac mae cyfathrebu'n allweddol*". Dywedodd cynrychiolydd arall fod anghenion a chanlyniadau llesiant ei mab bellach yn cael eu diwallu a'u gwella gan SCM a oedd wedi trefnu pethau fel technoleg gynorthwyol ar gyfer therapi siarad a cherddoriaeth. Dywedodd hi: "*Maen nhw'n symud ymlaen ac yn cael trefn ar bethau yn eithaf cyflym*". Dywedodd y ddau fod SCM hefyd yn ystyried eu hanghenion fel rhieni/cynrychiolwyr.

Mae gan y rhan fwyaf o'u cleientiaid anghenion cymhleth a rôl SCM yw trefnu timau amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol i ddiwallu anghenion yr unigolyn, a threfnu cyfarfodydd rheolaidd i drafod anghenion a datblygiad newidiol y cleient. Mae'r timau amlddisgyblaethol yn cynnwys gweithwyr proffesiynol fel ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, therapyddion iaith a lleferydd, meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol, ac mae angen mewnbwn gan bob un o'r rhain ar rai cleientiaid. Soniodd un o'r cynrychiolwyr am y ffaith bod SCM yn trefnu i weithwyr proffesiynol ddod i'r tŷ i ddarparu gofal a chymorth i'w mab. Dywedodd hefyd fod ganddo "*gefnogaeth gyfreithiol wych"* a bod SCM yn gweithio'n dda gyda chynrychiolydd cyfreithiol ei mab. Dywedodd hi: "*Mae cyfathrebu yn wych*" a bod SCM yn cadw mewn cysylltiad â hi bob amser. Mae ei mab dros 18 oed ac ymwelodd ei reolwr achos SCM â'i goleg hefyd er mwyn cael mewnwelediad pellach.

Mae llesiant cleientiaid yn cael ei wella drwy iddynt gael eu cefnogi i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau. Mae SCM yn cydnabod bod risgiau ynghlwm wrth annog annibyniaeth ac na ddylid atal unigolion rhag cymryd risgiau. Mae cleientiaid yn cael eu diogelu o ganlyniad i'r ffaith bod asesiad risg yn cael ei gynnal ar bob gweithgaredd cyn cychwyn a bod cynlluniau rheoli risg yn cael eu rhoi ar waith. Gwelwyd templedi asesu risg cynhwysfawr.

Diogelir cleientiaid gan bolisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau ac iechyd a diogelwch SCM, y mae staff wedi derbyn hyfforddiant arnynt. Mae SCM yn darparu cyfarpar diogelu personol i feysydd gwasanaeth a reoleiddir lle nad yw'r awdurdod lleol yn gwneud hynny, ac mae'n cael ei anfon o swyddfa Stokes yng Nghaerdydd drwy wasanaeth dosbarthu i gartrefi'r cleientiaid. Mae hefyd wedi cefnogi cleientiaid sy'n cael taliadau uniongyrchol i gael mynediad at gyfarpar diogelu personol drwy eu hawdurdod lleol.

## Yr Amgylchedd

Nid yw'r thema hon yn rhan o gylch gwaith arolygu gwasanaethau cymorth cartref oherwydd bod y gwasanaethau'n cael eu darparu yng nghartrefi'r cleientiaid, ond mae'r asiantaeth yn gweithredu o un swyddfa yng Nghaerdydd lle mae'n rheoli ei holl wasanaethau yng Nghymru. Mae gan y swyddfa drefniadau priodol ar gyfer storio gwybodaeth gyfrinachol. Roedd awyrgylch cadarnhaol, cydweithredol yn y swyddfa ar ddiwrnod yr ymweliad.

Cedwir ffeiliau cleientiaid unigol hefyd yng nghartrefi cleientiaid, a gwneir hynny ar-lein mewn rhai achosion, ac ar ffurf copïau papur mewn achosion eraill. Gwneir trefniadau fesul cleient i staff gael mynediad i'w gartref. Mae gan y staff gardiau adnabod a gwelwyd enghraifft. Mae staff yn cwblhau ffurflen asesu risg gychwynnol, gynhwysfawr ynghylch diogelwch safle'r cleient. Roedd enghraifft yn cadarnhau hyn. Mae cofnodion cynnal a chadw/monitro ar gyfer unrhyw offer sydd ei angen ar y cleient yn y cartref yn cael eu cwblhau gan staff yn ystod pob ymweliad, ac mae arweinwyr tîm yn eu monitro.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y darparwr gwasanaeth strwythur rheoli clir a systemau sefydledig ar waith i gefnogi gweithrediad llyfn y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn llunio adroddiadau cynhwysfawr, rheolaidd, sy'n cwmpasu'r meysydd sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth. Mae'r cwmni'n sefydlog yn ariannol gan fod ei weithgareddau wedi'u costio'n llawn ac yna'n cael eu cymeradwyo gan y llysoedd sy'n dyfarnu arian i'r cleientiaid. Mae gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ddealltwriaeth glir o'r ddeddfwriaeth ynghylch pa rai o'u gwasanaethau niferus y mae angen eu cofrestru, er yr oedd angen diwygio rhai dogfennau i fod yn fanwl gywir ac yn benodol i ddeddfwriaeth Cymru. Roeddent eisoes wedi cymryd llawer o gamau i wneud hyn ac wedi cytuno ar gamau pellach i gwblhau'r ymarfer hwn. Cefnogir y staff gydag ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau. Gwiriwyd y rhan fwyaf o'r rhain fel rhan o'r gwiriad ôl-gofrestru dilynol, a rhoddwyd adborth manwl ar y pryd. Gwnaed llawer o'r diwygiadau angenrheidiol a argymhellwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Cymreig, ond cymerodd SCM gamau ar unwaith i unioni hyn.

Er nad yw staff SCM yn rhoi meddyginiaeth, maent yn monitro'r cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) ar ran cleientiaid sy'n cyflogi'r staff gofal/asiantaeth gofal. Roedd y cofnodion ar gyfer Rhagfyr 2021 yn gynhwysfawr ond roedd nifer o fylchau yn y llofnodion. Mae rheolwr SCM yn sylwi ar fylchau pan mae'n monitro'r cofnodion. Mae hi wedyn yn olrhain pob un ac yn penderfynu ar gamau priodol, megis ailhyfforddi mewn rhoi meddyginiaeth.   Nid oedd y cofnodion hyn wedi'u harchwilio eto gan mai dim ond yn ddiweddar y cawsant eu dychwelyd i'r swyddfa. Roedd tystiolaeth bod y rheolwr yn eu harchwilio'n rheolaidd a chynhaliwyd tri archwiliad yn 2021 ac un hyd yn hyn yn 2022. Roedd y rheolwr yn cydnabod bod angen dychwelyd y cofnodion i'r swyddfa yn amlach a dywedodd y byddai'n gwneud trefniadau ar gyfer hyn.

Nid yw SCM yn cyflogi staff gofal, mae'n trefnu recriwtio ar ran cleientiaid neu eu cynrychiolwyr, ac yna mae'n ymwneud yn barhaus â hyfforddi, goruchwylio a monitro staff. Mae ganddo weithdrefnau recriwtio trylwyr ac ymgymerir ag ystod eang o wiriadau a chânt eu cofnodi ar restrau gwirio. Dim ond ychydig o ddiwygiadau sydd eu hangen ar y dogfennau a welwyd er mwyn iddynt gydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth. Trafodwyd y rhain yn fanwl a'u cadarnhau yn ysgrifenedig, a chytunodd y rheolwr i wneud y diwygiadau.

Teimla'r staff eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu rheolwyr ac mae'r cwmni'n darparu hyfforddiant priodol ac yn eu hannog i ennill cymwysterau pellach. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y staff ac yng nghofnodion cyfarfodydd tîm. Ymdrinnir ag ystod eang o bynciau yn ei raglen e-ddysgu a dywedodd y rheolwr bod Fframwaith Sefydlu Cymru yn cael ei ddilyn. Ategir hyn gan hyfforddiant sy'n benodol i gleientiaid, gan gynnwys hyfforddiant ymarferol gyda'r cleient yn ei gartref. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos pryd yr ymgymerwyd â phob pwnc o hyfforddiant a'r dyddiad yr oedd angen

cwblhau hyfforddiant gloywi. Canfuwyd bod cyflwyniad a ddefnyddiwyd ar gyfer hyfforddi rheolwyr achos SCM a rheolwyr achos cynorthwyol, yng Nghymru a Lloegr, yn anghywir a bod diffyg gwybodaeth ynddo am ddeddfwriaeth a gweithdrefnau Cymreig. Argymhellwyd cynhyrchu sleidiau ar wahân ar gyfer hyfforddiant yng Nghymru. Cytunodd yr unigolyn cyfrifol i gymryd y cam hwn. Roedd aelodau o staff yn canmol eu hyfforddiant yn fawr, a dywedodd un ohonynt: “*Dyma … SCM lle rydw i wedi gallu datblygu fy hyfforddiant ymhellach ac rydw i bellach wedi cwblhau fy NVQ lefel 5 yn llwyddiannus*”.

Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan oruchwyliaeth reolaidd ac mae SCM yn gwneud trefniadau i'r staff hynny nad ydynt yn gweithio’n agos i Gaerdydd gael goruchwyliaeth yn lleol. Mae SCM yn cadw cofnodion clir o pryd y disgwylir i oruchwyliaeth ddigwydd a phryd y mae wedi’i chwblhau er mwyn sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth a chanllawiau. Dangosodd archwiliad o'r cofnodion hyn mai dim ond un sesiwn oruchwyliaeth a gafodd un aelod o staff yn ystod ei saith mis cyntaf. Ymchwiliwyd i hyn yn ystod yr ymweliad arolygu a chanfuwyd eu bod wedi digwydd ond nad oeddent wedi cael eu lanlwytho i'r system. Hefyd, yn ystod yr ymweliad, trefnodd yr unigolyn cyfrifol i aelod arall o staff gymryd yr awenau ac roedd eisoes wedi trefnu sesiwn ar gyfer yr wythnos honno. Penderfynodd yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr yn ystod yr ymweliad, oherwydd y materion hyn, y byddent yn sicrhau bod yr adran Adnoddau Dynol yn cynyddu amlder eu harchwiliadau fel y byddai materion fel y rhain yn cael eu nodi'n gynt.

Mae cleientiaid yn elwa ar staff sy'n cael eu cefnogi gan gyfarfodydd tîm rheolaidd, gyda'r tîm ar gyfer cleient penodol, a chyfarfodydd tîm staff cyffredinol. Roedd cofnodion yn gynhwysfawr ac roedd camau gweithredu clir wedi'u nodi. Mae cofnod ar-lein ar gyfer cwynion, pryderon, damweiniau, digwyddiadau a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, ac mae categori pob cofnod wedi'i nodi'n glir. Mae'n gynhwysfawr gyda dolenni i ddogfennau perthnasol.

Mae angen datblygu ei adroddiad adolygu ansawdd gofal ymhellach. Roedd gwybodaeth, megis manylion adborth, canlyniadau, a chamau gweithredu gofynnol, ar gael mewn dogfennau eraill, ond mae angen ei chynnwys yn yr adroddiad. Trafodwyd hyn yn fanwl a chytunodd yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr i fynd ar drywydd hyn. Maent hefyd yn bwriadu ehangu ystod y bobl y maent yn ceisio adborth ganddynt i gynnwys, er enghraifft, cyfreithwyr a dirprwyon cyfreithiol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 27/05/2022

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 27/05/2022